Hunydd Andrews

Llais y dysgwr: Profiadau oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yng ngogledd Cymru

Rhif 9 Rhagfyr 2011 • ISSN 1741-4261

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Llais y dysgwr: Profiadau oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yng ngogledd Cymru

Hunydd Andrews

Cyflwyniad

Hyd at ganol yr 20fed ganrif, testun syndod oedd oedolion a oedd yn llwyddo i ddysgu'r Gymraeg yn ail iaith (Davies, 2006). Yn ystod y 1940au a'r 1950au y dechreuwyd cynnal gwersi ffurfiol Cymraeg i Oedolion. Cyn y cyfnod hwnnw, `proses o gymathu naturiol oedd yn peri bod oedolion yn dysgu Cymraeg o gwbl' (Davies, 2000: 11). Yn ystod y 1960au daeth galw sylweddol am wersi Cymraeg i Oedolion (Rhys, 1986). Roedd yn gyfnod o ddeffroad ieithyddol yng Nghymru (Jones, 1999), gyda chychwyn ymgyrch i ddiogelu'r Gymraeg yn dilyn cwymp sylweddol yn nifer y siaradwyr (Morris, 2000). Yn ôl Cyfrifiad 1891 roedd 898,914 o bobl tair oed a drosodd (54.4% o'r boblogaeth) yn medru'r Gymraeg (http://www.statistics.gov.uk/cci/nugget.asp?id=673; Williams, 2000). Erbyn 1961 dim ond 656,000 (26.0%) oedd yn medru'r iaith a disgynnodd y nifer eto i 542,425 (20.8%) erbyn 1971 (Morris, 2000; Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003). Tanlinella adroddiad gan Gyngor yr Iaith Gymraeg fod hyn yn golygu colled o dros 11,000 o siaradwyr y flwyddyn am ddegawd, gan nodi:

> Un ffordd o wrth-weithio'r duedd hon yw sianelu'r diddordeb cynyddol ymhlith oedolion. (Cyngor yr Iaith Gymraeg, 1976: 2)

Rheswm pwysig am y diddordeb hwn oedd twf addysg cyfrwng Cymraeg yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010). O'r lefel cyn-ysgol hyd at addysg uwchradd, cynyddodd y ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn gyflym, hyd yn oed yn ardaloedd mwyaf Seisnig Cymru. Ysgogodd hyn rieni i ddechrau dysgu'r iaith, ac yn sgil ymwybyddiaeth gynyddol o fanteision dwyieithrwydd, tyfodd y diddordeb mewn dysgu Cymraeg ymhlith oedolion ym mhob haen o'r gymdeithas (Jones, 1999).

Yn ystod y 1960au a'r 1970au sylweddolwyd bod angen mynd ati i ddarparu gwersi Cymraeg i Oedolion mewn modd cydunol (Powell & Smith, 2003). Datblygwyd rhwydwaith o ddosbarthiadau Cymraeg i Oedolion gan nifer o sefydliadau – Prifysgol Cymru, Colegau Addysg Bellach, Cymdeithas Addysg y Gweithwyr, Awdurdodau Addysg Lleol a mudiadau gwirfoddol (Morris, 2000). Cynyddodd nifer y cyrsiau yn gyflym. Er enghraifft, yn 1971 roedd 186 o gyrsiau yn cael eu cynnig gan yr Awdurdodau Addysg Lleol, Prifysgol Cymru a Mudiad Addysg y Gweithwyr, ac erbyn 1974 roedd 373. Yn ôl arolwg gan Goleg Prifysgol Aberystwyth, mynychodd dros 5,000 o ddysgwyr gyrsiau yn ystod 1972/3. Y cyrsiau mwyaf cyffredin oedd y rhai a gynhelid trwy gyfrwng dosbarthiadau nos unwaith yr wythnos (Cyngor yr Iaith Gymraeg, 1976). Sylweddolwyd yn ystod y cyfnod hwn bwysigrwydd oriau cyswllt uchel i ddysgwyr iaith (Powell & Smith, 2003), ac yn sgil hyn digwyddodd un o ddatblygiadau mwyaf arwyddocaol y maes – cychwyn cyrsiau Wlpan Cymraeg (Y Swyddfa Gymreig, 1984; Morris, 2000).Sail y datblygiad hwn oedd adfywiad yr iaith

Hebraeg yn Israel (Rees, 2000), lle y sefydlwyd cyrsiau Hebraeg dwys yn dilyn yr Ail Ryfel Byd. Oherwydd bod cynnydd aruthrol yn y nifer o fewnfudwyr o wahanol wledydd i Israel yn y cyfnod hwn, bu rhaid dod o hyd i ffordd i ddysgu Hebraeg i nifer fawr o bobl mewn cyfnod byr. Sefydlwyd y cwrs *Ulpan* cyntaf yn Israel ym Medi 1949, gan gynnig chwech awr o wersi y dydd, chwe diwrnod yr wythnos, gyda'r pwyslais ar yr iaith lafar (Baker & Jones, 1998). Gwahoddwyd Shoshana Eytan, un o diwtoriaid y cwrs *Ulpan* gwreiddiol, i drafod ei gwaith mewn cyfarfod yng Nghaerdydd yn 1972, a dechreuodd y cwrs Wlpan Cymraeg cyntaf y flwyddyn ddilynol (Rees, 2000). Newidiwyd enw'r cwrs o *Ulpan* i Wlpan i fod yn fwy Cymraeg (Newcombe, 2007). Yng Nghanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd y cynhaliwyd y cwrs, gan ddarparu deg awr o wersi yr wythnos am ddeg wythnos (Rees, 2000). Roedd hyn yn ddatblygiad chwyldroadol yn y ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion. O fewn deg wythnos, roedd modd dysgu cymaint o Gymraeg ag a gyflwynid fel arfer dros ddwy flynedd o wersi wythnosol (Newcombe, 2007). Ystyriwyd y cwrs yn `llwyddiant ysgubol' (Rhys, 1986: 35) a chafodd gyhoeddusrwydd gan y cyfryngau. Dechreuwyd sefydlu cyrsiau eraill yng Nghaerdydd a thu hwnt yn dilyn hyn (Rees, 2000), a chynyddodd nifer y cyrsiau er gwaethaf y rheidrwydd i ddysgwyr fynychu gwersi dair gwaith neu bedair yr wythnos (Y Swyddfa Gymreig, 1984). Ers y cyfnod hwnnw, sefydliadau Addysg Uwch, ar y cyfan, sydd wedi bod yn gyfrifol am gynnal cyrsiau dwys, tra cynhelir cyrsiau darnynol (unwaith yr wythnos) gan golegau Addysg Bellach, Awdurdodau Addysg Lleol ac eraill (Morris, 2000; Prosser, 1997).

Un o'r datblygiadau a ddaeth yn sgil y cyrsiau Wlpan cynnar oedd cyrsiau preswyl dwys. Yn ystod haf 1975 cynhaliwyd cwrs preswyl am fis yn Llanbedr Pont Steffan (Rees, 2000). Yn dilyn llwyddiant y cwrs hwnnw datblygwyd cwrs preswyl blynyddol a barai wyth wythnos (Powell & Smith, 2003). Canmolwyd y cwrs mewn adroddiad gan y Swyddfa Gymreig (1984). Cyfeiriodd yr un adroddiad at gyrsiau preswyl eraill a oedd wedi eu sefydlu mewn gwahanol fannau yng Nghymru erbyn y 1980au cynnar, a'u pwysigrwydd i'r maes. Ymhlith darparwyr y cyrsiau hyn roedd Canolfan Iaith a Threftadaeth Nant Gwrtheyrn ym Mhen Llŷn. Cynhaliwyd cwrs cyntaf y Nant yn 1982 (Clowes, 2004), ac o fewn llai na degawd roedd miloedd o ddysgwyr wedi cael eu denu i gyrsiau'r ganolfan (Fforwm Iaith Genedlaethol, 1991). Daeth y cyrsiau hyn yn rhan bwysig o'r ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion yng Nghymru a thu hwnt, a buont yn fodd i lawer o ddysgwyr ddod yn rhugl yn y Gymraeg (Newcombe, 2007; Clowes, 2004).

Parhaodd maes Cymraeg i Oedolion i ddatblygu yn ystod yr hyn a labelwyd yn ddegawd y dysgwr Cymraeg (R. O. Jones, 1993). Yn ystod tymor yr hydref 1981 mynychodd 3,872 o ddysgwyr gyrsiau Cymraeg i Oedolion (Y Swyddfa Gymreig, 1984). O fewn degawd arall, roedd nifer y dysgwyr wedi cynyddu i 11,000 (Prosser, 1997). Arweiniodd hyn at ddarogan y gallai nifer y dysgwyr godi'n uwch na nifer y siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, hyd yn oed:

> The decade (1980s) could be labelled `The Welsh learner's decade' and at the current rate of growth, there will be more second-language Welsh speakers than there are native speakers in the foreseeable future. (R. O. Jones, 1993: 576–7)

Erbyn 2004/5 roedd 25,465 o ddysgwyr wedi cofrestru ar gyrsiau (Newcombe, 2007) a daeth Cymraeg i Oedolion yn un o'r rhaglenni dysgu mwyaf ym maes addysg oedolion yng Nghymru (ELWa, 2004).

Roedd nifer o resymau y tu ôl i'r galw cynyddol am wersi Cymraeg ers y 1980au. Yn ôl Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1999), roedd agwedd fwy cadarnhaol yn datblygu tuag at yr iaith yng Nghymru. Cynyddodd y nifer o rieni a ddewisai addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plant ac roedd datblygiadau cadarnhaol y tu allan i fyd addysg hefyd. Codwyd proffil y Gymraeg yn y gweithle yn sgil Deddf Iaith 1993, a orfododd sefydliadau yn y sector cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal (Bwrdd yr Iaith, 1999). Cytuna Clowes (2004) a Mann (2007) bod y Ddeddf Iaith wedi cyfrannu at y diddordeb cynyddol yn yr iaith, a chyfeiria Clowes hefyd at ddylanwad sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, yn dilyn y refferendwm yn 1997. Roedd y cyfryngau yn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac yn darparu adnoddau i ddysgwyr yn ogystal. Ar lefel unigol, roedd llwyddiant y dysgwyr a ddaeth yn rhugl yn y Gymraeg ynddo'i hun yn ysbrydoli eraill i ddysgu'r iaith (Bwrdd yr Iaith, 1999).

Ym marn B. Jones (1993), mae oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yn greiddiol i adfywio'r iaith, gan mai oedolion yw aelodau dylanwadol y gymdeithas:

> in the restoration of the language, the determining factor is and must be the adult-learning movement (B. Jones, 1993: 10).

Cytunodd Jones (1999) â'r safbwynt hwn, a chyfeiriodd Morris (2000) hefyd at botensial Cymraeg i Oedolion yn nhermau adfywio'r Gymraeg. Mewn nifer o adroddiadau a gyhoeddwyd ar ddechrau'r 21ain ganrif, gwelir cydnabod pwysigrwydd maes Cymraeg i Oedolion o safbwynt hyrwyddo'r Gymraeg yng Nghymru (Powell & Smith, 2003; Bwrdd yr Iaith, 2004; ELWa, 2004; Estyn, 2004). Yn yr adroddiadau hyn, gwneir cysylltiad rhwng y maes a'r posibiliad o gyrraedd targed a osododd Llywodraeth y Cynulliad yn *Iaith Pawb* (2003), sef cynyddu cyfran y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru o bump y cant rhwng 2001 a 2011. Cyfeiriodd y llywodraeth at yr egwyddor hon eto yn ei *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*, gan gyflwyno'r nod o 'gynyddu nifer y dysgwyr sy'n dod yn rhugl yn y Gymraeg' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010: 3).

Gwelir cysylltiad, felly, rhwng maes Cymraeg i Oedolion a pholisi iaith y llywodraeth yng Nghymru. Serch hynny, ac er gwaethaf llwyddiannau'r maes yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif, beirniadwyd y modd y datblygodd Cymraeg i Oedolion. Nododd Morris (2000) mai esblygu a wnaeth y maes yn hytrach na dilyn cynllun. Beirniadodd ddiffyg cynllunio clir gan y Swyddfa Gymreig ac yna'r Cynulliad Cenedlaethol, a danseiliodd ddatblygiad rhaglen drochi gynhwysfawr ar gyfer oedolion fel rhan o bolisi iaith ehangach. Dadleuodd Morris bod llwyddiant neu fethiant y mudiad Cymraeg i Oedolion, ac felly'r frwydr i adfywio'r iaith, yn dibynnu ar gynllunio iaith yng Nghymru:

> The potential for successful language shift reversal in this field is evident – as is the potential for resource-draining failure unless these developments are brought about within the context of sensitive and sound language planning. (Morris, 2000: 214)

Galwodd Estyn (2004) hefyd am well cynllunio strategol a mwy o gefnogaeth i'r maes ar lefel genedlaethol er mwyn gwella'r ddarpariaeth ledled Cymru.

Bu cyllido'r maes hefyd yn destun beirniadaeth. Nododd Estyn (2004) bod diffyg cyllid yn cyfyngu'n sylweddol ar agweddau megis staffio, adnoddau a thwf yn y maes, gan

gyfyngu o'r herwydd ar y nifer o oedolion a lwyddai i ddysgu Cymraeg. Cyfeiriodd nifer o adroddiadau at anghysondeb rhwng y cyllid a ddarparwyd ar gyfer Cymraeg i Oedolion a'r cyllid a gefnogai'r Saesneg i Oedolion (English for Speakers of Other Languages – ESOL), a galwyd am fwy o gyllid i'r Gymraeg (ELWa, 2004; Estyn, 2004; Powell & Smith, 2003; Bwrdd yr Iaith, 1999, 2004).

Cymharwyd sefyllfa'r Gymraeg â sefyllfa ieithoedd lleiafrifol eraill er enghraifft, nododd Estyn (2004) bod cyllido'r Gymraeg yn cymharu'n wael â chyllido'r Fasgeg a'r Maori. Yn 2006 cyhoeddodd Llywodraeth y Cynulliad y sefydlid chwe Chanolfan Cymraeg i Oedolion, gyda buddsoddiad o £4.6 miliwn dros 28 mis. Yn 2008 cyhoeddwyd buddsoddiad pellach o bron £6.8 miliwn dros dair blynedd. Gellir cymharu hyn â'r gyllideb flynyddol a ddarperir ar gyfer dysgu Basgeg i Oedolion. Yn 2002/3 derbyniodd y maes hwnnw €27 miliwn (Powell & Smith, 2003).

Argymhellodd adroddiad gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) y dylai'r maes Cymraeg i Oedolion efelychu cyfundrefn y Fasgeg i Oedolion o safbwynt trefniadaeth a chyllid (Powell & Smith, 2003). Cymharodd adroddiad gan Fwrdd yr Iaith (2004) Gymru â Chymuned Ymreolus y Basgiaid yn yr un cyd-destun. Cyfeiriodd y ddau adroddiad at HABE, sefydliad a ariennir gan y llywodraeth Fasgaidd. Sefydlwyd HABE yn 1983 i arwain a chydlynu'r ddarpariaeth Fasgeg i Oedolion yng Nghymuned Ymreolus y Basgiaid (Cenoz, 2009). Flwyddyn ynghynt, roedd y Fasgeg wedi derbyn cefnogaeth statudol yn Neddf 1982 er Normaleiddio'r Iaith Fasgeg (Amorrortu, 2003). Yn sgil hyn, roedd rhaid i lawer o weision sifil ddysgu Basgeg a defnyddiwyd arian cyhoeddus i'w rhyddhau o'u gwaith i fynychu gwersi iaith amser llawn (Gardner, 2000). Daeth gwersi Basgeg i Oedolion yn boblogaidd iawn yn ystod y 1980au, gan ddenu dros 100,000 o ddysgwyr yn ystod 1986/7 yn unig (Baker & Jones, 1998). Ym marn Morris (2000), gellir priodoli sefyllfa gref y mudiad Basgeg i Oedolion i gysylltiad agos HABE ag Adran Ddiwylliant y llywodraeth Fasgaidd. Beirniadodd y gyfundrefn yng Nghymru am roi'r cyfrifoldeb am faes Cymraeg i Oedolion i gwangos.

Yng Nghatalonia hefyd, bu cefnogaeth statudol i'r Gatalaneg yn hwb i wersi iaith i oedolion (Webber & Strubell i Trueta, 1991). Ffynnodd cyrsiau Catalaneg yn sgil Deddf Normaleiddio'r Iaith yn 1983, gan ddenu dros 300,000 o ddysgwyr mewn degawd. Yn ôl Webber & Strubell i Trueta (1991), bu'r cyrsiau hyn yn rhannol gyfrifol am haneru'r ganran o Gatalaniaid a nododd nad oeddent yn deall yr iaith mewn cyfrifiadau rhwng 1981 ac 1986. Cyfeiria Webber & Strubell i Trueta (1991) at gynllunio a normaleiddio'r iaith yng Nghatalonia, a phwysigrwydd cyrsiau Catalaneg i Oedolion yn y broses honno:

> linguistic normalisation programmes in Catalonia have required a constant dedication to adult courses since positive attitudes from non-native adult speakers of Catalan are vital for the rapid realisation of the language planners' goals (Webber & Strubell i Trueta, 1991: 38)

Yng nghyd-destun Cymru, credai Morris y gellid cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn o fewn cenhedlaeth neu ddwy, petai polisi iaith cenedlaethol cryf yn hybu'r Gymraeg ac yn annog ei siaradwyr ar bob lefel gallu. Pwysleisiai bwysigrwydd oedolion sydd yn dysgu'r iaith o fewn strategaeth o'r math:

> Any policy for adult learners *must* be part of a larger comprehensive language policy for Wales which empowers its speakers and thereby enhances and encourages successful acquisition of the Welsh language by non-Welsh speakers. (Morris, 2000: 218)

Adleisiwyd yr alwad hon gan Carl Clowes, un o sefydlwyr Nant Gwrtheyrn:

> Mae dybryd angen am strategaeth genedlaethol glir ar gyfer Cymraeg i Oedolion. (Clowes, 2004: 58)

Dengys y sylwdau uchod bwysigrwydd dysgu iaith i oedolion yng nghyd-destun adfywio iaith yng Nghymru a thu hwnt. Nid yn unig y mae modd i Gymru ddysgu o brofiad gwledydd eraill, ond mae modd i eraill ddysgu o ddatblygiad maes Cymraeg i Oedolion. Cyfeiria Newcombe (2007), er enghraifft, at grŵp o athrawon Gaeleg a ddaeth i Gymru yn 1994 i arsylwi gwersi Cymraeg, profiad a ddylanwadodd ar gyrsiau Gaeleg wedi hynny. O ran adnoddau, crëwyd fersiynau Gwyddeleg a Gaeleg o'r rhaglenni *Now You're Talking*, a ddarlledwyd gan S4C ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn ystod y 1990au (Newcombe, 2007). Gellir ystyried, felly, bod arwyddocâd rhyngwladol i'r hyn sydd yn digwydd yng Nghymru o safbwynt dysgu iaith i oedolion.

Mae angen i faes Cymraeg i Oedolion gyrraedd ei botensial ar lefel ryngwladol, a chwarae rhan lawn yn y broses o gryfhau'r Gymraeg a chreu cymdeithas ddwyieithog yn unol â pholisi'r llywodraeth (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003, 2010). Rhaid felly i ddatblygiadau'r maes ddeillio o gynllunio gofalus yn seiliedig ar ymchwil trylwyr i sefyllfa gyfredol y maes a'i anghenion. Yr angen am yr ymchwil hwn a sbardunodd y gwaith a drafodir yn yr erthygl hon.

Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru (http://learncymraeg.org/) a gomisiynodd y gwaith. Y Ganolfan sydd yn cydlynu'r ddarpariaeth i ddysgwyr Cymraeg yn y rhanbarth (gan gynnwys Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Ar y cyd â'r Ganolfan ESRC dros Ymchwil i Ddwyieithrwydd ym Mhrifysgol Bangor, sefydlodd y Ganolfan Cymraeg i Oedolion yr astudiaeth hydredol gyntaf o gynnydd a dilyniant dysgwyr Cymraeg ledled gogledd Cymru. Bwriad y prosiect oedd adnabod profiadau dysgwyr y rhanbarth dros gyfnod o dair blynedd, gan ddechrau casglu gwybodaeth yn y wers gyntaf ar gyrsiau i ddechreuwyr.

Methodoleg

Ar ddechrau cyfnod yr ymchwil yn 2008, roedd un ar ddeg o ddarparwyr yn cynnal cyrsiau Cymraeg i Oedolion yng ngogledd Cymru, gan gynnwys sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach a chanolfannau iaith. Cytunodd pob darparwr i gymryd rhan yn yr ymchwil. Erbyn 2011, ar ôl uno rhai sefydliadau a phenderfynu peidio ag adnewyddu un cytundeb, wyth darparwr sydd bellach yn weithgar yn y maes: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (CAG) Coleg Harlech, Coleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Iâl, Coleg Llandrillo, Coleg Menai, Nant Gwrtheyrn, Popeth Cymraeg a Phrifysgol Bangor. Cyrsiau darnynol a gynigir gan Goleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Iâl, Coleg Llandrillo a Choleg Menai. Cyrsiau darnynol Cymraeg i Rieni a ddarperir gan CAG Coleg Harlech. Cynigia Popeth Cymraeg gyrsiau darnynol a chyrsiau dwys, tra bod Prifysgol Bangor a Nant Gwrtheyrn yn canolbwyntio ar gyrsiau dwys, a'r rheiny yn rhai preswyl yn achos y Nant.

Trwy gyfrwng holiaduron yn bennaf y casglwyd data ar gyfer yr astudiaeth hon. Datblygwyd hwy trwy addasu cwestiynau o holiaduron ar ddysgu iaith, gan gynnwys holiaduron gwerthuso cyrsiau'r darparwyr, Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr y Deyrnas Gyfunol (NSS) ac arolygon defnydd iaith megis *Arolwg Defnydd Iaith 2004* Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Dyfeisiodd y tîm ymchwil gwestiynau newydd yn ogystal.

Cafwyd adborth ar ddrafftiau cyntaf yr holiaduron gan ymgynghorwyr mewnol ac allanol, gan gynnwys arweinwyr cwrs, darparwyr, cynrychiolwyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac arbenigwyr dysgu iaith ym Mhrydain ac yn Ewrop. Adolygwyd yr holiaduron yn sgil hynny ac fe'u peilotwyd gyda dysgwyr Cymraeg ar gyrsiau haf Prifysgol Bangor ym mis Gorffennaf 2008. Cyflwynwyd dau holiadur – un i grŵp o chwe dechreuwr a'r ail i grŵp o chwe dysgwr a oedd wedi cwblhau cwrs i ddechreuwyr yn ystod y flwyddyn academaidd flaenorol. Gofynnwyd i'r dysgwyr gwblhau'r holiaduron gartref ac yna eu trafod gydag aelod o'r tîm ymchwil mewn cyfweliad grŵp. Wedi hyn penderfynwyd beth fyddai fersiynau terfynol yr holiaduron.

Yn ystod y flwyddyn academaidd 2008/9 anfonwyd holiadur cychwynnol at holl ddarparwyr gogledd Cymru i'w ddosbarthu i'r dysgwyr a ymunodd â'u cyrsiau i ddechreuwyr. Yn dilyn ymateb isel gan rai darparwyr, a drafodir isod, anfonwyd yr un holiadur at nifer ohonynt eto yn 2009/10. O ganlyniad, cynhwyswyd dwy garfan wahanol o ddysgwyr yn yr astudiaeth. Bwriad yr holiadur cychwynnol oedd darganfod gwybodaeth am agweddau megis cefndir y dysgwyr, gan gynnwys ers faint o amser yr oeddent yn byw yng Nghymru, eu rhesymau dros ddysgu Cymraeg, eu profiad o ddysgu'r iaith yn y gorffennol a'u disgwyliadau o'u cwrs. Dosbarthwyd yr holiaduron yn ystod gwers gyntaf pob cwrs. Fe'u dosbarthwyd gan y tiwtor, a'u casglodd eto yn ystod yr un wers. Seliwyd yr holiaduron mewn amlen ym mhresenoldeb y dysgwyr er mwyn sichrau cyfrinachedd, a'u dychwelyd i'r tîm ymchwil.

Ar ddiwedd pob cwrs, dosbarthwyd ail holiadur yn yr un modd. Bwriad yr holiadur hwnnw oedd mesur profiad y dysgwyr a oedd wedi cwblhau cwrs i ddechreuwyr. Holwyd y dysgwyr am eu barn ar nifer o agweddau ar y cwrs, am effaith y cwrs ar eu sgiliau Cymraeg a'u defnydd o'r iaith y tu allan i'r dosbarth, a'u bwriad o safbwynt parhau i ddysgu. Trafodir y ddau holiadur yn fanylach isod.

Sampl

Rhwng Medi 2008 ac Ionawr 2010, ymatebodd 1,061 o ddysgwyr i Holiadur 1, yr holiadur cychwynnol. Golyga hyn 55.7 y cant o'r 1,905 o ddechreuwyr a dargedwyd yn ystod y cyfnod hwnnw. Er y derbyniwyd adborth gan ddysgwyr ledled gogledd Cymru, roedd y sampl yn is na'r disgwyl. Oherwydd anawsterau ymarferol ar ran y darparwyr, ni dderbyniwyd holiadur gan bob dysgwr a oedd yn gymwys i gymryd rhan yn yr astudiaeth. Cafwyd yr un profiad yn achos Holiadur 2. Rhwng Rhagfyr 2008 ac Awst 2010, ymatebodd 479 o ddysgwyr i'r holiadur hwnnw, sef 31.8 y cant o'r 1,506 o ddechreuwyr a dargedwyd. Mewn ymdrech i sicrhau dosbarthiad mwy effeithiol, targedwyd nifer llai o ddysgwyr nag yn achos yr holiadur cyntaf, ar ôl ymgynghori â'r darparwyr. Fodd bynnag, cafwyd ymateb is fyth ar ddiwedd y cwrs. Digwyddodd hyn yn rhannol oherwydd yr anawsterau ymarferol y cyfeiriwyd atynt uchod ac yn rhannol oherwydd i un darparwr bostio holiaduron at y

dysgwyr wedi iddynt gwblhau eu cwrs, yn hytrach na dosbarthu'r holiaduron a'u casglu eto yn ystod y wers olaf. Mae profiad yn dangos mai trwy ofyn i ddysgwyr lenwi holiaduron yn ystod y wers y ceir yr ymateb llawnaf. Er gwaethaf yr ymateb is na'r disgwyl, rydym yn hyderus bod y data a gasglwyd yn adlewyrchu barn dysgwyr gogledd Cymru yn gyffredinol, gan i'r holiaduron gael eu llenwi gan ddysgwyr ar amrywiaeth o gyrsiau i ddechreuwyr a gynigiwyd gan holl ddarparwyr y rhanbarth. Gellir tybio bod mwyafrif y dysgwyr a ymatebodd i Holiadur 2 wedi ymateb i Holiadur 1 hefyd. Nid oedd modd peri i'r ddau holiadur gydweddu'n union ond nid oedd angen gwneud hynny am fod yr ail yn cynnwys cwestiynau a ddyluniwyd i fesur newid dros gyfnod y cwrs.

Canlyniadau Holiadur 1

(i) Cefndir y dysgwyr

Menywod oedd mwyafrif y dysgwyr a gwblhaodd Holiadur 1 (69.3%), patrwm cyffredin ym maes addysg oedolion:

http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=6998

http://www.statistics.gov.uk/STATBASE/ssdataset.asp?vlnk=7319)

Ganwyd mwyafrif y dysgwyr yn Lloegr (58.7%) a bron traean yng Nghymru (32.3%). Diddorol oedd nodi mai dim ond 13.2 y cant ohonynt oedd heb brofiad o ddysgu Cymraeg yn yr ysgol, er mai ar gyrsiau i ddechreuwyr y dosbarthwyd yr holiadur. Roedd 28.2 y cant o'r atebwyr wedi mynychu cwrs blaenorol ac 13.6 y cant wedi dechrau cwrs ond heb ei gwblhau. Ceir darlun o gefndir y dysgwyr yn Nhabl 1 isod, sydd yn dangos ers pryd roeddent yn byw yng Nghymru, a'u profiad o ddysgu Cymraeg o fewn y system addysg.

Tabl 1: Cefndir y dysgwyr (Holiadur 1)


Blynyddoedd yn byw yng Nghymru	**%**
< 1	15.3
1-2	9.6
3-4	9.3
5-6	6.4
7 +	59.3

Dysgu Cymraeg yn yr ysgol/y coleg	**%**
Cyn ysgol	13.2
Ysgol gynradd	31.3
Cyn Lefel O/TGAU	26.4
Lefel O/TGAU	15.1
Lefel A	0.5
Gradd	0.3
Dim	13.2

(ii) Cymhelliad

Gofynnwyd i'r dysgwyr pam yr oeddent yn dymuno dysgu Cymraeg. Cyflwynwyd rhestr o gymhellion a gofynnwyd i'r atebwyr eu graddio ar raddfa pum pwynt (o `pwysig iawn' i `ddim yn bwysig'). Dengys Ffigur 1 isod pa gymhellion oedd yn `bwysig' neu'n `bwysig iawn' i'r atebwyr.

Ffigur 1: Rhesymau dros ddysgu Cymraeg (Holiadur 1)




Mae'r cymhellion uchaf ar y rhestr, sydd yn bwysig neu'n bwysig iawn i dros 60 y cant o'r dysgwyr, yn ymwneud â'u plant (hynny yw, eu helpu gyda'u gwaith cartref (72.3%) neu siarad Cymraeg gyda nhw (68.9%)), â'r gymuned o'u cwmpas (symud i Gymru (72.3%) neu i gymuned Gymraeg (63.2%), neu ddod yn rhan o'r gymuned leol (63.2%)) neu â diddordeb yn yr iaith ei hun (66.6%). Cysylltir dysgu Cymraeg â'r gweithle a manteision gyrfaol, gyda dros 40 y cant o'r dysgwyr yn nodi bod y cymhellion canlynol yn bwysig neu'n bwysig iawn iddynt: siarad gyda chwsmeriaid (54.0%), gwella gyrfa (48.3%), helpu i gael gwaith (45.1%) a siarad yn y gwaith (43.7%). Gwelir mai ar waelod y rhestr y gosodir y cymhellion sydd yn ymwneud â defnyddio'r cyfryngau Cymraeg, sef y teledu (25.3%), papurau a chylchgronau (24.4%), y we (22.9%) a'r radio (22.2%).

Mae cymhelliad dysgwyr i siarad Cymraeg gyda'u plant yn arwydd calonogol o safbwynt trosglwyddo'r iaith i'r genhedlaeth nesaf. Mae'r awydd i ddysgu Cymraeg er mwyn helpu plant gyda'u gwaith cartref yn dangos dylanwad yr iaith y tu hwnt i'r gyfundrefn addysg yng Nghymru. Adlewyrcha hyn y rhesymau dros y cynnydd yn y galw am wersi Cymraeg i Oedolion a drafodwyd uchod.

Dengys cymhellion cymunedol a gyrfaol y dysgwyr y dylanwadau allanol eraill sydd yn eu hysgogi i ddysgu Cymraeg trwy'r dymuniad i integreiddio ac i wella eu rhagolygon gyrfa. Cymhellion sydd yn ymwneud â sgiliau iaith gweithredol sydd bwysicaf i'r dysgwyr, felly, gyda'r canlyniad bod cymhellion sydd yn ymwneud â sgiliau iaith goddefol, er enghraifft gwylio'r teledu a darllen papurau, yn llai pwysig.

(iii) Cymraeg yn y teulu

Ffigur 2: Cymraeg yn y teulu (Holiadur 1)




O safbwynt bywyd teuluol y dysgwyr, dengys Ffigur 1 uchod bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg nid yn unig gyda'r plant ond gydag aelodau eraill o'r teulu, gyda 54.1 y cant o'r dysgwyr yn nodi bod yr ail gymhelliad yn bwysig neu'n bwysig iawn iddynt. Er mwyn cael darlun ehangach o'r cyd-destun teuluol, gofynnwyd i'r dysgwyr pa aelodau o'u teulu oedd yn siarad Cymraeg a dengys Ffigur 2 uchod eu hymateb.

Gwelir mai ar yr aelwyd y mae'r iaith ar ei mwyaf cyffredin ymhlith aelodau teulu'r dysgwyr, hynny yw, ymhlith eu plant a'u partneriaid. Mae gan 63.6 y cant o'r dysgwyr un plentyn sydd yn siarad o leiaf ychydig o Gymraeg. Dengys y ffigurau hyn eto botensial dysgwyr o safbwynt cryfhau'r Gymraeg fel iaith yr aelwyd a'i throsglwyddo i'r genhedlaeth nesaf.

(iv) Rhesymau dros adael cwrs

Nodwyd uchod bod 13.6 y cant o'r atebwyr wedi gadael cwrs blaenorol heb ei gwblhau. Gofynnwyd iddynt nodi pam y gwnaethant hynny, trwy dicio'r rhesymau perthnasol mewn rhestr o bosibiliadau. Gwelir eu hymateb yn Ffigur 3 isod.

Ffigur 3: Rhesymau dros beidio â chwblhau cwrs (Holiadur 1)



Mae'n amlwg mai pwysau blaenoriaethau eraill (18.6%) a diffyg amser (14.2%) oedd prif resymau'r dysgwyr dros adael cwrs yn y gorffennol. O'r deg rheswm uchaf ar y rhestr, mae'r mwyafrif yn rhai sydd y tu hwnt i reolaeth darparwyr cyrsiau a thiwtoriaid. (Yr eithriadau yw: 'Roedd y dysgu'n rhy gyflym' (8.5%) ac, i'r gwrthwyneb, 'Do'n i ddim yn symud ymlaen yn ddigon cyflym' (6.1%) a 'Do'n i ddim yn hoffi'r ffordd o ddysgu' (4.4%).) Ymateb calonogol yw hyn sydd yn dangos, ar y cyfan, nad gwendidau yn y ddarpariaeth sydd yn gyfrifol am beri i ddysgwyr roi'r gorau i gyrsiau Cymraeg. Fodd bynnag, rhaid ystyried goblygiadau'r trydydd rheswm ar y rhestr, sydd yn dangos bod 9.8 y cant o'r dysgwyr yn ystyried y Gymraeg yn iaith anodd ei dysgu. Os yw'r canfyddiad hwn yn ddigon i beri i ddysgwyr adael cwrs, gallai darparwyr a thiwtoriaid achub y blaen ar y sefyllfa trwy sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o ofynion dysgu iaith yn gyffredinol, a dysgu'r Gymraeg yn benodol, cyn dechrau cwrs.

(v) Disgwyliadau

Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried disgwyliadau'r rhai sydd yn mentro i fyd dysgu'r Gymraeg. Cyflwynodd Holiadur 1 ddeilliannau dysgu a gofyn i'r dysgwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn meddwl y byddent yn eu cyflawni erbyn diwedd y cwrs. Dengys Tabl 2 isod y canlyniadau.

Tabl 2: Disgwyliadau o gyrhaeddiad erbyn diwedd y cwrs (Holiadur 1)

	%				
	Yn dda iawn	Yn weddol dda	Yn rhannol	Ychydig	Ddim o gwbl
Cyfarch pobl mewn geiriau syml	61.7	32.0	4.4	1.8	0.1
Ynganu geiriau Cymraeg	41.7	50.6	6.0	1.6	0.1
Deall sgyrsiau syml	31.6	51.9	12.4	4.0	0.2
Sgwrsio'n syml (e.e. siarad am y tywydd, manylion personol)	46.0	37.0	12.1	4.8	0.2
Ysgrifennu negeseuon syml	19.9	37.2	23.7	15.3	4.0
Deall sgyrsiau hir	11.6	30.4	38.2	15.6	4.1
Cymryd rhan mewn sgyrsiau hir	9.6	26.0	34.1	21.3	9.1
Deall rhaglenni teledu Cymraeg	7.6	23.1	41.1	23.3	4.8
Deall rhaglenni radio Cymraeg	7.2	21.3	38.9	26.2	6.3
Darllen papurau/cylchgronau Cymraeg	5.6	20.7	35.9	27.1	10.6

O'r deilliannau yr oedd y dysgwyr yn disgwyl y byddent yn gallu eu cyflawni'n dda iawn neu'n weddol dda, yr uchaf ar y rhestr oedd y symlaf, o gyfarch pobl (93.7%) i ynganu geiriau Cymraeg (92.3%) i ddeall sgyrsiau syml (83.5%) a chymryd rhan ynddynt (83.0%). Dyma ddisgwyliadau sydd yn addas i ddysgwyr ar gwrs i ddechreuwyr. Gallai disgwyliadau rhy uchel, er enghraifft gallu cymryd rhan mewn sgyrsiau hir, arwain at siomi dysgwyr ac efallai dylanwadu ar eu penderfyniad i ddyfalbarhau yn y pen draw.

Canlyniadau Holiadur 2

(vi) Profiad a chynnydd


Er mwyn ymchwilio ymhellach i'r mater hwn, gofynnodd Holiadur 2 i'r dysgwyr ar ddiwedd eu cwrs i ba raddau y gwnaeth y profiad o ddysgu Cymraeg gyd-fynd â'u disgwyliadau. Dangosir yr ymateb yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3: Cymharu'r profiad o ddysgu Cymraeg âdisgwyliadau'r dysgwyr (Holiadur 2)

Y profiad o ddysgu Cymraeg	**%**
Roedd yn llai anodd nag o'n i wedi disgwyl	29.1
Roedd fel o'n i wedi disgwyl	52.6
Roedd yn fwy anodd nag o'n i wedi disgwyl	18.3

I fwyafrif y dysgwyr (81.7%), roedd dysgu Cymraeg yn cyd-fynd â'u disgwyliadau neu'n llai anodd. Roedd y profiad yn anoddach na'r disgwyl i 18.3 y cant, carfan y dylid ei thargedu er mwyn sichrau bod pawb sydd yn ymuno â chwrs Cymraeg yn deall gofynion y dasg sydd o'u blaen, fel y trafodwyd uchod.

Ffigur 4: Newid yn sgiliau'r dysgwyr o ganlyniad i'r cwrs(Holiadur 2)



Un o amcanion Holiadur 2 oedd mesur datblygiad y dysgwyr dros gyfnod eu cwrs. Gofynnwyd iddynt nodi ar raddfa saith pwynt (o 'wedi gwella llawer' i 'yn waeth o lawer') i ba raddau yr oedd eu sgiliau Cymraeg wedi newid o ganlyniad i'r cwrs. Dengys Ffigur 4 uchod bod mwyafrif helaeth y dysgwyr (dros 95%) wedi profi cynnydd yn eu sgiliau deall, siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, canlyniad cadarnhaol nid yn unig i'r dysgwyr ond i ddarparwyr y cyrsiau hefyd.

(vii) Y Gymraeg y tu allan i'r dosbarth

I ddarganfod i ba raddau yr oedd y dysgwyr yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg newydd, gofynnwyd nifer o gwestiynau am ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r dosbarth. Holwyd pa mor hawdd neu pa mor anodd oedd hi i gael cyfle i siarad Cymraeg, a pha mor aml oedd y dysgwyr yn gwneud hyn o ganlyniad i'r cwrs. Dengys Tabl 4 isod yr ymateb.

Tabl 4: Siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth (Holiadur 2)


Cyfleoedd i siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth	**%**
Hawdd iawn	10.3
Hawdd	22.8
Ddim yn hawdd nac yn anodd	29.1
Anodd	30.1
Anodd iawn	7.7

Siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth o ganlyniad i'r cwrs	%
Yn amlach o lawer	19.1
Yn amlach	29.0
Ychydig yn amlach	39.3
Dim newid	12.0

Rhannwyd y dysgwyr yn weddol gyfartal rhwng y rhai yr oedd hi'n hawdd neu'n hawdd iawn iddynt gael cyfle i siarad Cymraeg (33.1%), y rhai nad oedd hi'n hawdd nac yn anodd iddynt (29.1%), a'r rhai yr oedd hi'n anodd neu'n anodd iawn iddynt (37.8%). Adlewyrcha'r ymateb hwn y sefyllfaoedd ieithyddol amrywiol y mae dysgwyr yn eu profi ledled gogledd Cymru, yn y cymunedau y maent yn byw ynddynt, yn eu gweithleoedd ac ymhlith eu cydnabod. Arwydd calonogol yw'r ffaith bod 87.4 y cant o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth o leiaf ychydig yn amlach erbyn diwedd y cwrs.

Gofynnwyd i'r dysgwyr ym mha gyd-destunau yr oeddent yn siarad Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Cyflwynwyd rhestr o ddewisiadau a gofynnwyd i'r atebwyr nodi'r sefyllfaoedd perthnasol ar raddfa saith pwynt (o 'yn amlach o lawer' i 'yn llai aml o lawer'). Dengys Ffigur 5 isod y sefyllfaoedd yr oedd y dysgwyr wedi profi cynnydd ynddynt, o safbwynt defnyddio'r Gymraeg.

Ffigur 5: Cyd-destunau ar gyfer siarad Cymraeg (Holiadur 2)




Gwelir bod y cynnydd mwyaf wedi digwydd ymhlith teuluoedd a ffrindiau'r dysgwyr, gyda 74.6 y cant o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg o leiaf ychydig yn amlach gyda'u plant, 70.6 y cant gyda'u ffrindiau a 68.3 y cant gydag oedolion yn y teulu. Cyd-destun pwysig arall yw'r gweithle, gyda 64.3 y cant o'r dysgwyr yn siarad Cymraeg o leiaf ychydig yn amlach gyda chyd-weithwyr a 48.0 y cant gyda chwsmeriaid. Ymddengys y cyd-destun cymunedol hefyd yn hanner uchaf y rhestr, gyda 46.6 y cant o'r atebwyr yn siarad Cymraeg o leiaf ychydig yn amlach gyda chymdogion. Adlewyrchir y cyd-destunau hyn yn y rhestr cymhellion a oedd yn bwysig neu'n bwysig iawn i dros 50 y cant o'r dysgwyr a ymatebodd i Holiadur 1 ar ddechrau eu cwrs (gweler Ffigur 1 uchod). Mae hyn yn cyd-fynd â strategaeth y maes Cymraeg i Oedolion a'r math o ddarpariaeth y canolbwyntir arno, hynny yw, cyrsiau sydd yn paratoi dysgwyr i sgwrsio yn Gymraeg yn gymdeithasol ac i ddefnyddio'r iaith gyda'r teulu ac yn y gweithle (http://www.welshforadults.org/how/rightlevel/?lang=cy).

(viii) Gweithgareddau dysgu iaith

Yn ogystal â thrafod dylanwad y cwrs, aethpwyd ati i ddarganfod barn y dysgwyr ar gynnwys y cwrs ei hun. Gofynnwyd iddynt nodi effeithiolrwydd gweithgareddau dosbarth ar raddfa pum pwynt (o 'effeithiol' i 'aneffeithiol'). Dengys Ffigur 6 isod eu hymateb.

Ffigur 6: Gweithgareddau effeithiol yn y dosbarth (Holiadur 2)




Ymateb cadarnhaol, yn enwedig o safbwynt y tiwtoriaid, yw'r ffaith mai hyfforddiant gan y tiwtor yw'r gweithgaredd uchaf ar y rhestr, gan y'i hystyrir yn effeithiol gan 95.9 y cant o'r dysgwyr. Yn wir, mae dros 75 y cant o'r atebwyr yn ystyried mwyafrif y gweithgareddau yn effeithiol. Yr eithriadau yw canu (56.6%) a dysgu rhyngweithiol ar gyfrifiadur (51.3%).

(ix) Anawsterau

Yn ogystal â cheisio gwybodaeth am yr hyn a oedd o gymorth i ddysgwyr wrth ddysgu Cymraeg, gofynnwyd iddynt am unrhyw anawsterau a brofwyd ganddynt. Cyflwynwyd rhestr o agweddau a gofynnwyd i'r dysgwyr nodi p'un ai a oeddent wedi peri anhawster ai peidio, ar raddfa pedwar pwynt (o `anodd iawn' i `ddim yn anodd'). Gweler eu hymateb yn Ffigur 7 isod.

Deall gramadeg oedd prif anhawster y dysgwyr, gan i 68.4 y cant nodi bod hyn yn anodd neu'n anodd iawn iddynt. Tair agwedd a oedd yn peri anawsterau i niferoedd tebyg oedd diffyg hyder (56.6%), diffyg geirfa (55.8%) ac ynganu (55.5%). Roedd diffyg ymarfer y tu allan i'r dosbarth yn peri anhawster i bron hanner y dysgwyr (49.3%) ond, ar y llaw arall, câi llai na chwarter yr atebwyr (23.7%) anhawster oherwydd amharodrwydd siaradwyr Cymraeg i siarad gyda nhw. Ymdrinnir isod â'r posibiliad o fynychu gweithgareddau allgyrsiol a drefnir yn arbennig ar gyfer dysgwyr.

Ffigur 7: Anawsterau wrth ddysgu Cymraeg (Holiadur 2)




(x) Bodlonrwydd


Gofynnwyd i'r dysgwyr fynegi eu bodlonrwydd â'r addysgu ar eu cwrs trwy nodi ar raddfa pum pwynt (o `cytuno'n gryf' i `anghytuno'n gryf') i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â chyfres o ddatganiadau. O astudio'r canlyniadau yn Ffigur 8 isod, gwelir bod lefel uchel o fodlonrwydd, gyda dros 90 y cant o'r dysgwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau. Diddorol yw nodi bod 95.5 y cant o'r atebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod digon o gyfle i ddysgu geirfa newydd, gan awgrymu bod y cyrsiau'n mynd i'r afael ag un o'r anawsterau a nodwyd gan y dysgwyr yn Ffigur 7 uchod.

Yn yr un modd, holwyd barn y dysgwyr ar yr adnoddau a ddefnyddiwyd ar eu cwrs. Dengys Ffigur 9 isod eu hymateb.

Ffigur 8: Bodlonrwydd gyda'r addysgu ar y cwrs (Holiadur 2)




Ffigur 9: Bodlonrwydd gyda'r adnoddau ar y cwrs (Holiadur 2)



Ymateb cadarnhaol a gafwyd i'r datganiadau am safon y deunyddiau papur, yr ystafell ddosbarth a'r adnoddau sain, gyda dros 85 y cant o'r dysgwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â nhw. Mae gwahaniaeth amlwg rhwng yr ymateb hwn a'r ymateb i'r datganiad am y defnydd o'r dechnoleg ddiweddaraf ar y cwrs. Yn achos y datganiad olaf, 62.0 y cant o'r dysgwyr a gytunodd neu a gytunodd yn gryf ag ef. Awgryma hyn nad yw'r defnydd o dechnoleg yn flaenoriaeth ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion, gan adlewyrchu safle isel dysgu ar gyfrifiadur yn y rhestr o weithgareddau dosbarth effeithiol a gyflwynwyd yn Ffigur 6 uchod. Rheswm posib am hyn yw diffyg argaeledd adnoddau technolegol yn yr ystafelloedd dosbarth a ddefnyddir ar gyfer gwersi Cymraeg mewn gwahanol leoliadau ledled y gogledd. Er mwyn ymchwilio ymhellach i'r mater hwn, cynhwyswyd cwestiynau pellach ar dechnoleg gwybodaeth mewn trydydd holiadur, a drafodir eto mewn cyhoeddiad dilynol.

O safbwynt trefn y cwrs a'i werth am arian, dangosodd ymateb y dysgwyr unwaith eto bod y mwyafrif ohonynt yn fodlon â'r ddarpariaeth. Gwelir yn Ffigur 10 isod bod dros 80 y cant o'r atebwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiadau a gyflwynwyd yn yr holiadur.

Ffigur 10: Bodlonrwydd gyda threfn y cwrs (Holiadur 2)




Gofynnwyd i'r dysgwyr hefyd nodi eu barn ar hyd a her y gwersi a chyflymder ac oriau cyswllt y cwrs. Dangosir eu hymateb yn Nhabl 5 isod.

Tabl 5: Cyflymder a dwyster y cwrs (Holiadur 2)

	Dim digon (%)	Yn iawn (%)	Gormod (%)
Cyflymder y cwrs	2.7	95.7	1.6
Her	3.6	93.8	2.5
Oriau cyswllt	10.8	88.3	0.8
Hyd y gwersi	3.1	94.6	2.3

Gwelir bod mwyafrif y dysgwyr (dros 88%) yn fodlon â'r agweddau hyn ar eu cwrs, ond diddorol yw nodi bod 10.8 y cant o'r atebwyr o'r farn nad oedd digon o oriau cyswllt. Un ffordd i ddysgwyr gynyddu eu horiau cyswllt â'r Gymraeg yw mynychu gweithgareddau allgyrsiol a drefnir yn y gymuned. Gofynnwyd i'r dysgwyr a oedd ganddynt amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r math ac ymatebodd 42.5 y cant ohonynt yn gadarnhaol. Gofynnwyd iddynt hefyd nodi'r gweithgareddau yr hoffent eu mynychu a dangosir eu hymateb yn Ffigur 11 isod. Sefyllfaoedd sgwrsio anffurfiol a oedd yn ennyn y diddordeb pennaf, ynghyd â theithiau cerdded, i rhwng 17.5 y cant a 20.9 y cant o'r atebwyr.

Ffigur 11: Gweithgareddau allgyrsiol yr hoffai dysgwyr eu mynychu (Holiadur 2)



(xi) Dilyniant

Dywedodd 95.3 y cant o'r dysgwyr y byddent yn mynychu cwrs Cymraeg arall yn y dyfodol. O safbwynt amseru cyrsiau, dengys Tabl 6 isod mai dim ond unwaith yr wythnos y dymuna mwyafrif y dysgwyr (73.3%) fynychu eu prif gwrs. O ran cyrsiau ychwanegol, cyrsiau adolygu byr sydd yn denu'r diddordeb pennaf (29.2%), gan awgrymu bod prinder amser yn effeithio ar allu dysgwyr i ymrwymo i ddysgu Cymraeg. Yn wir, roedd diffyg amser

yn peri anhawster i 41.5 y cant o'r dysgwyr ar eu cyrsiau cyfredol (gweler Ffigur 7 uchod). Yn yr ail safle ar restr y cyrsiau ychwanegol, mae'r diddordeb mewn dysgu ar-lein (25.7%) yn awgrymu bod dysgwyr yn chwilio am ddulliau hyblyg i ychwanegu at yr hyn y maent yn ei ddysgu ar eu prif gwrs. Unwaith eto, awgrymir bod lle i ystyried y defnydd o dechnoleg gwybodaeth ac adnoddau ar-lein ar gyrsiau.

Tabl 6: Y cyrsiau nesaf yr hoffai dysgwyr eu mynychu (Holiadur 2)

Prif gwrs	**%**
Unwaith yr wythnos	73.3
Dwywaith neu dair gwaith yr wythnos	21.7
Yn y gweithle	7.5

Cyrsiau ychwanegol	**%**
Cwrs preswyl wythnos	5.6
Cwrs preswyl penwythnos	9.0
Cwrs penwythnos dibreswyl	12.1
Cyrsiau adolygu byr	29.2
Sadwrn Siarad	16.9
Dysgu ar-lein	25.7

Er gwaethaf y ganran uchel o ddysgwyr a ddangosodd ddiddordeb mewn dilyn cwrs arall (95.3%), nid yw'r lefel dilyniant mor uchel â hyn mewn gwirionedd. Yn wir, tynnwyd sylw at ddiffyg dilyniant o gyrsiau dechreuwyr i gyrsiau ar lefel uwch fel gwendid yn y maes (Estyn, 2004; Bwrdd yr Iaith, 2004; Newcombe, 2007). Dengys data mewnol Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru bod y gyfran o ddysgwyr a gwblhaodd gwrs i ddechreuwyr ac a barhaodd i gwrs ar lefel uwch yn amrywio rhwng 23.0 y cant a 32.7 y cant yn ystod 2007/8 – 2009/10. Awgryma'r gwahaniaeth rhwng y ffigurau hyn y dylid ystyried ffyrdd o fanteisio ar frwdfrydedd amlwg dysgwyr ar ddiwedd eu cwrs, efallai trwy eu hannog i gofrestru ar ail gwrs ar y pryd yn hytrach nag aros tan ddechrau'r tymor dilynol.

Clo

Trwy gyfrwng yr holiaduron a drafodwyd, casglwyd data sylweddol am ddysgwyr Cymraeg holl ddarparwyr gogledd Cymru am y tro cyntaf. Er mwyn lledaenu gwybodaeth wrth i'r prosiect ddatblygu, rhannwyd canlyniadau'r ymchwil â darparwyr a thiwtoriaid Cymraeg i Oedolion yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, gan ysgogi myfyrio a thrafod. Testun anogaeth oedd adborth Holiadur 2 oherwydd ei natur gadarnhaol ar y cyfan, gan ddangos bodlonrwydd y dechreuwyr â safonau'r cyrsiau a chynnydd yn sgiliau Cymraeg y dysgwyr a'u defnydd o'r iaith y tu allan i'r dosbarth.

Cynigia'r data sail gadarn ar gyfer cynllunio'r maes, trwy gynorthwyo'r darparwyr Cymraeg i Oedolion i adnabod eu cynulleidfa'n fwy trylwyr. Dilynir yr holiaduron a drafodwyd uchod gan ddau holiadur pellach a chyflwynir rhagor o ddata yn y dyfodol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer y maes. Hyderir y bydd canlyniadau'r ymchwil o fudd i weithwyr maes Cymraeg i Oedolion wrth iddynt geisio sicrhau'r profiad gorau ar gyfer y dysgwyr, ac y bydd y gwaith o ddiddordeb i gynllunwyr iaith yng Nghymru ac i'r rhai sydd yn ymwneud â dysgu ail iaith i oedolion yn rhyngwladol.

Llyfryddiaeth

Amorrortu, E. (2003), *Basque Sociolinguistics: Language, Society and Culture* (Reno: University of Nevada).

Baker, C. & Jones, S. P. (1998), *Encyclopedia of Bilingualism and Bilingual Education* (Clevedon: Multilingual Matters).

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1999), *Strategaeth Cymraeg i Oedolion* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg). http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/227.pdf

Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2004), *Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog* (Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg). http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/cyhoeddiadau/Cyhoeddiadau/2069.pdf

Cenoz, J. (2009), *Towards Multilingual Education: Basque Educational Research from an International Perspective* (Bristol: Multilingual Matters).

Clowes, C. (2004), *Nant Gwrtheyrn* (Talybont: Y Lolfa).

Cyngor yr Iaith Gymraeg (1976), *Dysgu Cymraeg i Oedolion: Adroddiad i'r Gwir Anrhydeddus John Morris* (Cardiff: HMSO).

Davies, C. (2006), *The Welsh Language* (Talybont: Y Lolfa).

Davies, E. (2000), 'Dulliau Dysgu a'r Dosbarth Iaith' yn C. James (gol.), *Cyflwyno'r Gymraeg: Llawlyfr i Diwtoriaid Iaith* (Llandysul: Gomer), 11-26.

ELWa (2004), *Cymraeg i Oedolion: Dogfen Ymgynghori ar Ailstrwythuro Cymraeg i Oedolion 2004* ((Caerdydd): ELWA).

Estyn (2004), *The Quality of Provision in Welsh for Adults* (Cardiff: Estyn). http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403821/196449/Welsh_for_Adults_report.pdf?lang=cy

Fforwm Iaith Genedlaethol (1991), *Strategaeth Iaith 1991–2001* (Caernarfon: Fforwm Iaith Genedlaethol).

Gardner, N. (2000), *Basque in Education in the Basque Autonomous Community* (Vitoria-Gasteiz: Eusko Jaurlaritzaren Argitalpen Zerbitzu Nagusia).

Jones, B. (1993), *Language Regained* (Llandysul: Gomer).

Jones, R. O. (1993), 'The Sociolinguistics of Welsh' yn M. J. Ball a J. Fife (gol.), *The Celtic Languages* (London: Routledge), 536–605.

Jones, R. O. (1999), 'The Welsh Language: Does it Have a Future?', yn R. Black et al. (gol.), *Celtic Connections: Proceedings of the 10th International Congress of Celtic Studies Volume 1: Language, Literature, History, Culture* (East Lothian: Tuckwell Press), 425–456.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2003), *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010), *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg* (Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru).

Morris, S. (2000), 'Adult Education, Language Revival and Language Planning', yn C. H. Williams (gol.), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales* (Cardiff: University of Wales Press), 208–20.

Mann, R. (2007), 'Negotiating the politics of language: Language learning and civic identity in Wales', yn *Ethnicities*, 7 (2), 208–24.

Newcombe, L. P. (2007), *Social Context and Fluency in L2 Learners: The Case of Wales* (Clevedon: Multilingual Matters).

Powell, R. & Smith, R. (2003), *Evaluation of the National Welsh for Adults Programme* (Swansea: National Foundation for Educational Research). http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403821/196449/nfer_welsh_for_adults_revie1.pdf?lang=cy

Prosser, H. (1997), 'Dysgu'r Gymraeg yn ail iaith i oedolion', yn *Addysg Gymraeg (2): Casgliad o ysgrifau a olygwyd gan Merfyn Griffiths* (Caerdydd: Cyd-bwyllgor Addysg Cymru), 95–7.

Rees, C. (2000), 'Datblygiad yr Wlpan', yn C. James (gol.), *Cyflwyno'r Gymraeg: Llawlyfr i Diwtoriaid Iaith* (Llandysul: Gomer), 27–44.

Rhys, E. (1986), 'Dysgu'r Gymraeg fel Ail Iaith i Oedolion', yn *Addysg Gymraeg: Casgliad o Ysgrifau a Olygwyd gan Merfyn Griffiths* ((Caerdydd): Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru), 33–7.

Webber, J. & Strubell i Trueta, M. (1991), *The Catalan Language: Progress Towards Normalisation* ((Sheffield): Anglo-Catalan Society).

Williams, C. H. (2000), 'On Recognition, Resolution and Revitalization', yn C. H. Williams (gol.), *Language Revitalization: Policy and Planning in Wales* (Cardiff: University of Wales Press), 1–47.

Y Swyddfa Gymreig (1984), *Dysgu'r Gymraeg fel Ail Iaith i Oedolion* (Cardiff: HMSO).

Cyfeiriadau ar-lein

http://learncymraeg.org/

http://www.statistics.gov.uk/cci/nugget.asp?id=673

http://www.statswales.wales.gov.uk/TableViewer/tableView.aspx?ReportId=6998

http://www.statistics.gov.uk/STATBASE/ssdataset.asp?vlnk=7319

http://www.welshforadults.org/how/rightlevel/?lang=cy